Y Wifren Wib – Zip

Cysyniadau: **Cryfder personoliaeth, dewrder, gweledigaeth, meddwl am eraill.**

Amcan: **Arddangos cryfder personoliaeth a hynny er mwyn eraill.**

Cyfarpar: **Darlun o'r Zip World.**

Cyflwyniad:

● Dangos darlun neu bamffled Zip World. Oes yna rywun wedi bod ar y Wifren Wib naill ai ym Methesda neu ym Mlaenau Ffestiniog?

● Sut brofiad oedd o?

● Pwy fyddai'n hoffi mynd ar y Wifren? Pam?

Stori:

Dyma i chi hanes un fu ar y wifren wib ond fe aeth i bwrpas arbennig.

'Oes yna rywun yn adnabod Mr Morris, Mr John Morris?' gofynnodd y pennaeth i'r plant.

Doedd gan neb yn yr ysgol ddim syniad pwy ydoedd. Doedd neb wedi'i weld yn yr ardal.

'Wel' meddai'r pennaeth, 'mae Mr Morris yng Nghartref yr Henoed ar hyn o bryd, Cartref Cilgwyn i lawr y ffordd, ac mae o wedi dod i'r ysgol heddiw i ofyn am ein help ni. Mr Morris, fe gewch chi ofyn i'r plant beth yn union ydych chi eisiau iddyn nhw wneud.'

Cododd Mr Morris oddi ar y gadair a safodd gan bwyso ar ei ffon, a'i ben moel yn sgleinio dan oleuadau llachar y neuadd.

'Fel roedd yr athrawes ... wel, y brifathrawes, yn dweud mi ydw i'n byw ers blwyddyn neu ddwy yn awr yng Nghartref Cilgwyn sydd gyferbyn â swyddfa'r post. Mae 'na un ar hugain o bobl tebyg i mi

yn byw yno. Fel y gwelwch chi pobl mewn oed ydyn ni i gyd. Maen nhw'n dweud y bydd rhaid i'r cartref gau os na chawn ni arian i'w gynnal. Mae'r Cyngor wedi dweud yn blaen na fedran nhw ein helpu ni'n ariannol. Felly mae gofyn i ni, y preswylwyr, fynd ati i godi arian.'

Gwrandawai'r plant i gyd yn astud ar yr hyn oedd gan Mr Morris i'w ddweud. 'Mi ydw i wedi penderfynu mod i am fynd ar y Wifren Wib, y Zip Wire.'

Pan glywodd y plant hyn roedd rhai ohonyn nhw wedi dychryn. Hen ŵr fel Mr Morris yn mynd ar y Wifren Wib! NA, byth!

'Mi fydda i'n cael fy mhen-blwydd ymhen tair wythnos,' aeth Mr Morris yn ei flaen. 'Wyddoch chi faint fydd f'oed i?' gofynnodd i'r plant. Cafodd bob math o atebion. Pum deg un, yr un oed â taid, naw deg naw, a rhai yn dweud ei fod dros gant oed.

'Wel!' meddai, 'does yr un ohonoch yn iawn. Mi fydda i'n wyth deg pump.' Roedd rhai o'r plant yn meddwl bod Mr Morris yn hen iawn, iawn.

'A beth ydych chi eisiau i ni fel ysgol ei wneud felly Mr Morris?' holodd y pennaeth.

'Dŵad yma'r bore 'ma ydw i i ofyn a wnewch chi fy noddi ac os y medrwch chi'r plant ddod draw efo'ch athrawon a'ch rhieni i weld dyn wyth deg pump oed yn gwibio ar y Wifren Wib. Bydd hyn yn digwydd wythnos i ddydd Sadwrn nesaf. Fydd 'na ddim ysgol ar ddydd Sadwrn.' Roedd y plant i gyd yn awyddus iawn i weld Mr Morris ar y wifren.

Ac felly y bu. Roedd plant yr ysgol i gyd yno a'r athrawon a'r rhieni yn gwylio Mr Morris yn mynd fel seren wib drwy'r awyr.

Doedd o ddim gwaeth. Pan ddaeth i lawr oddi ar y wifren aeth yn syth at y plant i ddiolch iddyn nhw. Roedd dagrau yn ei lygaid. Am fod y gwynt wedi creu'r dagrau wrth iddo wibio heibio.

'Na,' meddai un o'r plant, 'am ei fod o'n hapus fod yr ysgol wedi'i helpu ac wedi casglu bron iawn i fil o bunnau i gadw Cartref Cilgwyn.' Ymdrech gwerth chweil.

Emyn: Nerthol, nerthol, nerthol: Canu Clod 292

Trafodaeth bellach:

- Sut ddyn oedd Mr Morris? Oedd ganddo bersonoliaeth gref?

- Fyddech chi'n dweud ei fod yn ddyn dewr?

- Ai er ei fwyn ei hun roedd Mr Morris yn mynd ar y wifren?

Dyfyniad o'r Beibl:

Dywedodd Iesu Grist:
"Fel y dymunwch i eraill wneud i chwi, gwnewch chwithau yr un fath iddynt hwy." Luc 6:31 BCND

Munud i feddwl:

Gwnewch eich gorau i bawb hyd yn oed os ydi hynny'n golygu mynd i drafferth.

Myfyrdod/Gweddi:

O Dduw, wnei di fy helpu i wneud fy ngorau dros bawb ac i wneud hynny'n ddirwgnach? Diolch. Amen.